

Cyfeirnod(au) y Papur

6953/01

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 3: Y Gweithiwr Gwybodaeth

Ionawr 2009

Senario

Agorwch y deunydd hwn ar unwaith. Dylai gael ei ddosbarthu i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos waith cyn yr arholiad.

Ffeiliau ymarfer: LauraElle_practice.xls
Recipe_practice.txt
SurveyStatistics_practice.txt
Ledger_practice.txt

Caiff y disgrifiad drosodd ei ddefnyddio fel senario ar gyfer y fanyleb uchod, a chaiff ei ailddosbarthu gyda'r papur arholiad. Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. Ni chaniateir mynd â'r deunydd hwn i mewn i'r arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau, sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster a'r pwnc hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Rhif Log yr Argraffwr

N36017A



W850/R6953/57570 1/

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited yn unig. ©2008 Edexcel Limited.

Trowch y dudalen

edexcel 
advancing learning, changing lives

Dewis o Bersawrau LAURA ELLE

Gwnaeth Laura Lewis a Steven Gee gyfarfod pan oeddent yn gweithio i gorff ymchwil clinigol yn Bracknell. Roedd sylfaen eu partneriaeth fusnes wedi digwydd ar ddamwain i raddau helaeth. Roedd Steven yn gweithio ar ddatblygu tabled alergedd newydd. Roedd yn cynnal arbrawf pan gerddodd Laura, o'r adran farchnata, heibio a chanmol ei sent eillio (*aftershave*). Cafodd Steven ei synnu braidd gan hyn oherwydd nid oedd yn defnyddio sent eillio ac felly fe wnaeth ei galw hi yn ôl. Ymhen tipyn, gwnaethant sylweddoli bod yr arogl yn dod o diwb profi oedd yn cynnwys cymysgedd o gemegion.


Sylwodd Laura yn gyflym ar y posibilrwydd o farchnata'r cymysgedd fel persawr (*perfume*). Fe wnaeth hi berswadio Steven bod hyn yn syniad da a gofynnodd iddo gynnal mwy o arbrofion. Creodd Steven labordy yn ei garej a phrynodd y ddau ohonynt y cemegion rhyngddynt. Dros yr wythnosau nesaf, bu Steven yn arbrofi gyda'r 12 cemegyn yn y cymysgedd gwreiddiol gydag amrywiol feintiau o ddŵr. Yn y diwedd creodd 11 rysâit wahanol ar gyfer persawrau. Yna, datblygodd Laura eu henwau a chynhyrchodd ddisgrifiadau at ddibenion marchnata.

Enwau'r 11 persawr oedd



Midnight Flight

Olion nytmeg, swêd, pupur du, sandalwydd, pimento, mwsg, a phren cedrwydd, yn cyfoethogi noson ramantus.



Aftermath

Cyfuniad cain o sitrws, afal pîn, a nodiadau coediog, wedi'u hasio ag arogl aer y môr, yn ddelfrydol at ddefnydd cyffredinol.




Mirepoix

Naws flodeuog ysgafn gydag awgrym o sbeis, at ddefnydd y wraig fusnes yn ystod y dydd.



Joix

Cyfuniad ysgafn o riniau (*essences*) ffrwythau a blodau, at ddefnydd pobl ifanc a'r ifanc eu calon yn ystod y dydd.




Sabre

Persawr llyfn, blodeuog cyfoethog, benywaidd a choeth ar gyfer y fenyw sydd eisiau cael ei chymryd o ddifrif.




Clubbin

Persawr siarp a melys ar gyfer y fenyw sydd am gael sylw.




Opus

Olion gardenia, ffa tonca, bergamot, fanila, sandalwydd, jasmin, rhosod, ambr, muguet a mandarin, i'w ddefnyddio gyda'r nos.



Gorgeous

Cymysgedd persawrus o jasmin, fanila a gellyg, i'w ddefnyddio'n gyffredinol.




Crazy Knights

Cyfuniad o jasmin, rhosod, fetifer, mwsg, lemwn a ffrisfa, ar gyfer noson allan fywiog.



Lotus Leaves

Cymysgedd o bersawrau bergamot blodeuog, blodau oren, jasmin, lili'r dyffrynnoedd, gwyddfif, fanila, sandalwydd, ambr a mwsgogl, at ddefnydd cyffredinol.



Crystal Web

Olion jasmin, bricyll, camri ac eirin gwlanog, persawr ysgafn a blodeuog sy'n ddelfrydol i'w ddefnyddio gyda'r nos.

Yna, aeth Laura at gadwyn fawr o siopau adrannol a gytunodd i stocio dewis (*range*) Laura Elle o bersawrau. Ar ôl cael eu calonogi gan hyn, mae Laura a Steven nawr yn paratoi ar gyfer cynhyrchu ar raddfa fwy o faint. Maent wedi dylunio potel 30ml wahanol ar gyfer pob un o'u persawrau. Mae gwneuthurwr gwyrdr wedi cytuno i gyflenwi'r rhain am 80c y botel.

Nawr, mae angen i Steven a Laura osod pris cyfanwerthu (*wholesale price*) ar gyfer pob un o'r cynhyrchion. Mae Laura wedi dechrau gwneud hyn ac mae hi wedi cwblhau model yn rhannol i'w helpu hi. Wrth i dechrau'r cynhyrchu agosáu, mae materion marchnata'n mynd â mwy a mwy o'i hamser ac felly nid oes ganddi amser i gwblhau'r model. Mae hi wedi'ch cyflogi chi i gwblhau'r model er mwyn rhoi cyngor iddi ar faint i godi (*charge*) ar y gadwyn siopau adrannol am bob cynnyrch.

Mae Steven yn canolbwyntio ar gynhyrchu. Mae e'n credu y gallwch chi roi cyngor iddo ar faint o bob cynhwysyn a ddylai gael ei brynu a faint o bob persawr a ddylai gael ei gynhyrchu.

(Ffynhonnell y gwaith celf: Michelle Goates, 2007)

Disgrifiad o'r model

Mae'r model sydd wedi'i gwblhau'n rhannol yn caniatáu i chi arbrofi â phrisiau cyfanwerthu gwahanol i weld pa gyfuniad fydd yn rhoi'r elw mwyaf i chi.

Taflen waith	Disgrifiad
<i>Summary</i>	Pan fydd wedi ei chwblhau, yn y daflen waith ' <i>Summary</i> ' y bydd y prisiau cyfanwerthu sy'n cael eu hawgrymu ar gyfer pob cynnyrch yn cael eu cofnodi. Mae ardal ar y daflen waith lle caiff y cyfanswm refeniw, y costau a'r elw eu dangos.
<i>Recipe</i>	Bydd y daflen waith yn cynnwys faint (mewn ml) o bob un o'r cynhwysion sydd ei angen i greu 1 litr o bob un o'r persawrau. Mae'r wybodaeth hon yn gyfrinachol ar hyn o bryd a bydd angen i Steven roi hyn i chi cyn y gallwch ddefnyddio'r model.
<i>Ingredient Requirements</i>	Bydd y daflen waith hon yn rhagweld faint o bob un o'r cynhwysion sydd ei angen am y flwyddyn. Bydd yn cael ei dadansoddi yn ôl y gofynion ar gyfer pob cynnyrch a gall cyfanswm gael ei gyfrifo.
<i>Ingredient Costs</i>	Bydd y daflen waith hon yn cynnwys pris cost pob cynhwysyn. Bydd yn cyfrifo faint o bob cynhwysyn sydd ei angen, a'i gost.
<i>Sales</i>	Bydd y daflen waith hon yn cyfrifo nifer y sypiau (<i>batches</i>) sydd eu hangen ar bob un o ganghennau'r gadwyn siopau adrannol fydd yn dibynnu ar y prisiau cyfanwerthu rydych chi wedi eu gosod.
<i>Survey Statistics</i>	Bydd y daflen waith hon yn cynnwys dadansoddiad o ganlyniadau o arolwg a wnaed gan y gadwyn siopau adrannol. Bydd yn cael ei defnyddio i ragweld nifer y cyflenwadau y bydd pob cangen yn eu gwerthu.

Mae rhai celloedd yn y model wedi'u diogelu gan gyfrinair. Os ydych yn dymuno arbrofi â'r model, y cyfrinair yw *edexcel*. Dylech fod yn ymwybodol os ydych yn newid cynnwys unrhyw gell sydd wedi'i diogelu ei bod yn bosibl na fydd y model yn gweithio.